NEWYDDLEN CWLWM – TYMOR Y GAEAF 2020

# cwlwm



**Croeso i Newyddlen Cwlwm, Tymor y Gaeaf, lle cewch hyd i'r wybodaeth ddefnyddiol ddiweddaraf ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae.**

# CYNNWYS:


1. Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (2019)
2. Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
3. Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol
4. Adolygiad Safonau Gofynnol Cenedlaethol – y camau nesaf
5. Cynnig Gofal Plant
6. Ymgyrch 'Gofalwn Cymru'
7. Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)
8. Canllawiau Diogelu Cymru
9. Cynllun Grant Cymorth Busnes Gofal Plant
10. CAMAU – Cynllun Dysgu Cymraeg i'r Sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
11. Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
12. Y Cylch Chwarae

# 1 Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (2019)

Yn ddiweddar, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) wedi adolygu a diweddaru canllawiau Haint, Atal a Rheoli ar gyfer lleoliadau gofal plant (0-5 oed) yng Nghymru.


Amlygir pwysigrwydd y canllawiau hyn yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir: Safon 10.1 *Hyrwyddir iechyd da plant a chymerir camau cadarnhaol i atal haint rhag lledaenu gyda mesurau priodol yn cael eu cymryd mewn achosion o salwch.*

Ar ôl cyfnod o ymgynghori â sefydliadau perthnasol, adolygwyd y canllawiau i gynnwys yr arfer gorau cyfredol mewn perthynas â'r arferion Atal a Rheoli Heintiau  ar gyfer holl Leoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru, fel a ganlyn:

- Asesiad risg a risg heintiad
- Y Gadwyn o Haint
- Rhagofalon Rheoli Heintiau Safonol:
  - Hylendid Llaw
  - Hylendid Peswch a Resbiradol
  - Offer Gwarchod Personol
  - Glanhau'r Amgylchedd
  - Glendid offer
  - Delio â gollyngiadau gwaed a hylifau'r corff
  - Rheoli Gwastraff
  - Lliain / Dillad Brwnt
- Toiled, poti a newid cewyn
- Hylendid Bwyd a Dŵr Yfed
- Rheoli Achosion
- Ymweliadau Fferm



Mae'r canllawiau dwyieithog, gwiriad awdit a'r templedi enghreifftiol ar gyfer lleoliadau gofal plant ar gael wrth ymweld â gwefan Rhaglen Rheoli Haint Gysylltiedig â Gofal Iechyd ac Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd ICC



**Who should read this leaflet?**

This leaflet is for anyone who washes their friend's or relative's clothing at home.

**Is there a risk of infection to myself or my family if I take clothing home from a hospital or care home?**

The risk of infection to you and your family is low, but the information in this leaflet will help you handle the clothes safely.

**Who should I ask if I need extra advice on how to wash the clothes at home?**

The staff at the ward or care home will tell you the main things you need to do, such as washing your hands or wearing gloves. They will explain this to you before you take any items home.

**How will I carry the clothing home?**

Staff will put the clothing in a plastic bag which they will tie securely to stop anything leaking. You should not be able to see what is in the bag from the outside, but you may want to bring another plastic bag to put the clothing inside. If you do this, make sure there are no other items in the bag, for example food.

**What if my friend or relative has an infection and I have been given their clothing to take home?**

In this situation staff may give you extra advice, for example they might tell you to use a higher washing temperature than you would normally.

**Is there ever a situation when I should not take clothing home?**

In very rare circumstances, such as if the clothing is very dirty, staff may recommend that you use the laundry service in the hospital or care home, if this is available. Staff will explain this to you.

**How should I handle clothing I take home?**

**Step 1 – Take the items home in the tied plastic bag that the staff have provided.**

- Wash the clothing as soon as possible.
- The clothing may have been put in a special laundry bag which has a dissolvable strip and can be put directly into the washing machine. There are special washing instructions for this situation and staff will explain this to you.

**Step 2 – Putting the items into the washing machine.**

- Wash the clothing separately from your other home laundry.

**Items in laundry bag with dissolvable strip**

- If the items have been placed in a laundry bag with a dissolvable strip, put the bag directly into the washing machine.
- The bag's soluble tape and seam will dissolve during the washing cycle. For this to happen the hotter the temperature the better, however the water-soluble bag will open automatically at any temperature.
- At the end of the washing cycle remove the bag and put it in your usual household bin.

**Normal laundry**

- Remove the items from the bag and put them directly into the washing machine, if possible without sorting them. If you have to sort the clothes wear rubber gloves and wash these and your hands with soap and warm water afterwards.
- Check the washing instructions on the labels in the clothing carefully.
- Always hold the clothing away from you to avoid spreading germs onto your clothes.
- Do not shake the clothing as this may cause germs to spread.
- Do not overload your washing machine as this will not wash the clothes as well.

**After putting the laundry into the washing machine**

- Throw away the plastic bag you used to carry the clothing home and put it into your usual household bin.
- Wash your hands thoroughly with soap and warm water.
- Clean the area around your washing machine such as the door of the machine and worktops with your usual kitchen cleaner

**Step 3 – Wash the clothing using the highest temperature you can and following the washing instructions.**

- Use your normal washing powder or detergent and follow the instructions on the correct amount to use.

**Step 4 – Tumble-dry the clothes (if possible) following the washing instructions.**

- If you cannot tumble-dry the items, dry them in the way you would normally, for example on a washing line or clothes horse.

**https://phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/guidance/**

Ar ddiwedd 2018, daeth grŵp gweithio bach, sef y tîm Diogelu Iechyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru) at ei gilydd i adolygu eu canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant yng Nghymru (2014). Eu nod yn y pen draw oedd sicrhau bod gan y rhai sy'n ymwneud â darparu gofal ym mhob lleoliad gofal plant (0-5 oed) yng Nghymru fynediad at bolisïau / canllawiau safonol, cyfredol a chyson i gefnogi eu harferion Atal a Rheoli Heintiau.

Trwy gydweithio â Diogelu Iechyd yr Alban, a oedd eisoes wedi cwblhau adolygiad cynhwysfawr o'u canllawiau *'Atal a Rheoli Heintiau i Leoliadau Gofal Plant (Gofal Dydd a Lleoliadau Gwarchod Plant)'* yn 2018, bu'r grŵp gweithio ICC yn ffodus i dderbyn caniatâd llawn gan Diogelu Iechyd yr Alban i addasu eu canllawiau i'w defnyddio yng Nghymru.

Ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r canllawiau diwygiedig neu fater arall sy'n gysylltiedig â Haint, Atal a Rheoli, cysylltwch â Thîm Ymateb Acíwt (AWARe), Tîm Diogelu Iechyd Cymru ar 0300 003 0032 neu e-bostiwch AWARe@wales.nhs.uk

# 2 Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Datblygwyd **Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant** i hybu hyder a sgiliau gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant. Lansiwyd y fframwaith ym mis Hydref 2018 gan Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar y pryd.

Nod y fframwaith sefydlu yw sicrhau bod gan weithwyr  y sector y sgiliau, gwybodaeth a'r hyder sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn gymwys.

### Bydd o gymorth i weithwyr i allu:

- deall eu rôl - beth sy'n ofynnol ganddynt a pha gefnogaeth y gallant ddisgwyl
- dod i adnabod eu hamgylchedd gwaith a'r wybodaeth sydd angen arnynt i wneud eu gwaith yn dda
- dod i adnabod eu cydweithwyr a datblygu perthnasoedd gwaith da
- deall sut y gallant gynnig y gefnogaeth orau i'r  rhai y byddant yn gweithio gyda hwy.

### Beth yw'r cynnwys?

Mae 5 adran yn y fframwaith sefydlu, gyda gweithlyfr a chofnod dysgu i annog dysgwyr i gwblhau:

- Egwyddorion a gwerthoedd
- Iechyd, lles, dysgu a datblygu
- Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Diogelu plant
- Iechyd a diogelwch yng ngofal, dysgu, datblygu a chwarae plant

## Sut gellir ei ddefnyddio?

Bydd y fframwaith yn cefnogi rheolwyr i sefydlu gweithwyr yn effeithiol trwy ddarparu proses a dull clir i asesu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad eich gweithwyr, ynghyd â nodi eu cryfderau a'u hanghenion datblygu. Bydd y fframwaith hefyd yn fanteisiol fel offeryn ar gyfer staff presennol mewn perthynas â'u hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhau (DPP).

I'r rhai nad ydynt mewn rôl gyflogedig (er enghraifft, gwarchodwyr plant cofrestredig), mae'r fframwaith sefydlu yn ddefnyddiol i gefnogi myfyrdod personol wrth ddechrau yn y sector neu wrth ddilyn rôl newydd.



# 3 Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol



Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn drafftio cynllun newydd i ddisodli'r **Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol 'Gofal Plant yn y Cartref'**. Ymhlith pethau eraill, mae cynhwysiant i'r cynllun yn galluogi rhieni / gofalwyr sy'n defnyddio nanis wedi eu cymeradwyo, i dderbyn taliadau am y gofal plant y mae'r nani yn ei ddarparu trwy ystod o gonsesiynau treth a budd-daliadau Llywodraeth y DU fel Credydau Treth, Credyd Cynhwysol a Gofal Plant Di-dreth.


Ar ôl drafftio'r cynllun, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhannu'r cynllun drafft â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys CWLWM. Mae'n bwysig ein bod yn casglu barn y sector cyn i unrhyw gynllun newydd gael ei gwblhau a'i gyhoeddi.

Ar ôl cwblhau'r cynllun, bydd angen cyfeirio ato yn Neddfwriaeth y DU i ddisodli'r Cynllun Cymeradwyo Nani presennol a gobeithir bydd hyn yn bosibl yn 2020.

# 4 Adolygiad Safonau Gofynnol Cenedlaethol – y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun gweithredu i fwrw ymlaen â'r argymhellion sy'n codi o'r adolygiad SGC a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Gellir gweld yr adroddiad adolygu yma:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/adolygiad-or-safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-rheoleiddiedig_0.pdf




Cynhaliwyd trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol o'r sector gofal plant a chwarae, gan gynnwys partneriaid CWLWM ac arweinwyr gofal plant awdurdodau lleol, i rannu syniadau ynghylch pa weithredoedd y dylid eu blaenoriaethu a phwy fydd yn gyfrifol am symud y rhain ymlaen.


Bydd newyddlenni yn y dyfodol yn cynnwys diweddariadau ar gynnydd.



# 5 Cynnig Gofal Plant

Ym mis Medi 2019, roedd tua 11,000 o blant yn derbyn y Cynnig ac roedd mwy na 2,000 o ddarparwyr yn darparu'r Cynnig. O'r plant hyn, roedd 29% yn manteisio ar y Cynnig mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Ar 14eg Hydref, cyhoeddwyd Canllawiau diwygiedig [https://llyw.cymru/y-cynnig-gofal-plant-i-gymru-canllawiau-i-awdurdodau-lleol?] a Chwestiynau Cyffredin i awdurdodau lleol i gynorthwyo gyda chyflwyno'r Cynnig.




Fe gyhoeddwyd y gwerthusiad annibynnol o flwyddyn 2 (2018-19) y Cynnig Gofal Plant ar 19eg Rhagfyr 2019.

Mae'r adolygiad o'r raddfa ar gyfer y Cynnig Gofal Plant wedi cychwyn gyda gweithdai yn cael eu cynnal gan CWLWM a rhai o'i aelodau. Rhagwelir y bydd gweithdai rhanbarthol pellach yn cael eu cynnal gyda darparwyr gofal plant yn y Flwyddyn Newydd i sicrhau bod barn darparwyr o bob rhan o'r wlad yn cael eu casglu. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried y data a gipiwyd yn yr ymarfer casglu data blynyddol SASS AGC a gynlluniwyd ar gyfer y Flwyddyn Newydd. Bydd yr adolygiad yn gorffen tua Gwanwyn / Haf 2020.

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi comisiynu adolygiad o oblygiadau ymestyn y Cynnig i rieni mewn hyfforddiant ac addysg, a disgwylir adroddiad yn ystod 2020.




# 6 Ymgyrch 'Gofalwn Cymru'

Mae'r ymgyrch denu a recriwtio 'Gofalwn Cymru' ar gyfer gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yn parhau i ennill momentwm 10 mis ers ei lansio. Yn ystod mis Medi cynhaliwyd wythnos Gofalwn Cymru, gyda phob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru yn arddangos eu gwaith. Cynhaliwyd digwyddiadau gyrfaoedd ynghyd â digwyddiadau eraill ar draws Cymru, gyda'r nod o godi proffil gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr canolbwyntiodd yr ymgyrch ar ddenu mwy o ddynion i'r gweithlu a thynnu sylw at bwysigrwydd y Gymraeg. I ddod ym mis Mawrth, bydd ystod eang o weithgareddau yn canolbwyntio ar 'gyrfaoedd mewn gofal' gyda'r nod o chwalu'r syniad mai 'dim ond swydd' yw gwaith gofal. Os hoffech wylio'r fideos neu ddarganfod mwy, ewch i

www.gofalwn.cymru

# 7 Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Y gobaith yw mai 2020 fydd y flwyddyn pan fydd Cymru yn pasio deddfwriaeth bwysig i roi diwedd ar gosbi plant yn gorfforol. Os yw Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn llwyddiannus, bydd Cymru yn ymuno â mwy na 55 o genhedloedd ar draws y byd sydd eisoes wedi cymryd camau i roi terfyn ar gosbi plant yn gorfforol. Mae'r Bil yn adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn.

Os bydd y Bil yn cael ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn dod yn gyfraith, ni fydd yn gyfreithlon i rieni ac oedolion eraill sy'n gweithredu fel rhieni i gosbi plant yn gorfforol. Bydd y Bil yn gwneud hyn drwy ddileu amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin, fel na ellir ei ddefnyddio gan unrhyw oedolyn sy'n gweithredu fel rhiant i amddiffyn cyhuddiad o ymosod ar blentyn neu ei guro.

Bydd cyfnod o ddwy flynedd cyn i'r gyfraith ddod i rym. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd ymgyrch codi ymwybyddiaeth i hysbysu'r cyhoedd am y newid i'r gyfraith. Hefyd bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau a fydd yn cymryd rhan yn y gwaith o weithredu'r newid i'r gyfraith.

Mae'r Bil yn rhan o becyn llawer ehangach o gymorth i blant a'u rhieni, gan gynnwys yr ymgyrch Magu plant. Rhowch amser iddo sydd wedi'i gynllunio i helpu rhieni i wneud y gorau y gallant, gan ddarparu awgrymiadau a gwybodaeth gadarnhaol am rianta. Mae hyn ar ben amrywiaeth o wasanaethau i hyrwyddo rhianta cadarnhaol, a ddarperir drwy ymweliadau iechyd, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r trydydd sector.

Bydd dileu amddiffyniad cosb resymol yn dod ag eglurder i rieni a gweithwyr proffesiynol ac yn anfon neges glir nad yw cosbi plant yn gorfforol yn dderbyniol yng Nghymru.

# 8 Canllawiau Diogelu Cymru




Gyda lansiad newydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Cymru yw'r wlad gyntaf i gyflwyno un set o ganllawiau diogelu i helpu i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl, a hynny drwy ap ar gyfer ffonau symudol.

Mynychodd mwy na 400 o bobl ddigwyddiadau lansio Gweithdrefnau Diogelu Cymru yng Nghaerdydd a'r Rhyl yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu ym mis Tachwedd.

Yn ystod y digwyddiadau cyflwynodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Julie Morgan AC, y Gweithdrefnau. Arweiniodd yr Athro Emeritws Jan Howarth ar  ddatblygiad y Gweithdrefnau, ac amlinellodd ar y nodau a'r egwyddorion sy'n rhedeg drwyddi draw.

Ers hynny, mabwysiadwyd  y Gweithdrefnau'n ffurfiol gan Gwent a Chaerdydd a Byrddau Diogelu Rhanbarthol y Fro, y cyntaf yng Nghymru i wneud felly. Golyga hyn eu bod eisoes yn cael eu defnyddio gan filoedd o ymarferwyr.




Ar hyn o bryd mae'r holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol eraill wrthi'n cwblhau eu hamserlenni eu hunain ar gyfer eu mabwysiadu.

Cyhoeddwyd Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn ddigidol ac felly maent ar gael i unrhyw un trwy ap ffon symudol a gwefan bwrpasol. Mae'r ap eisoes wedi ei lawr lwytho gan fwy na 4000 o ymarferwyr ledled Cymru.

Gallwch ei lawrlwytho nawr trwy'r Apple App Store a Google Play Store. Fel arall gallwch ddarllen Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar-lein yn **www.safeguarding.wales** a **www.diogelu.cymru**

# 9 Cynllun Grant Cymorth Busnes Gofal Plant

Lansiwyd peilot cynllun grant sy'n cynnig cymorth i fusnesau ym mis Medi 2019. Mae'n rhan o gyfres o fesurau gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi cymorth i fusnesau gofal plant, er mwyn hwyluso creu lleoedd gofal plant hyblyg ychwanegol ledled Cymru.

**Mae dau grant gwahanol ar gael trwy'r cynllun:**

- **Grant Gofal Plant** – i annog gofalwyr plant newydd i'r sector. Bydd y grant yn cynnig rhywfaint o gymorth ariannol i helpu talu rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â dechrau busnes gofal plant;
- **Grant Gweithwyr Newydd** – i annog creu swyddi newydd ar draws y sector gofal plant. Mae'r grant yn cynnig cymorth ar gyfer cyflogau a gorbenion wrth lenwi lleoedd gofal plant gwag.

Mae modd gwneud cais am y Grant Gofal Plant hyd at 31 Mawrth 2020 (grant ar gyfer dechrau busnes gofal plant), a hyd at 31 Awst 2020 ar gyfer y Grant Gweithwyr Newydd, yn ddibynnol os yw'r cyllid ar gael.

Ers lansio'r cynllun bu nifer yn dangos diddordeb yn y ddau grant ac yn gwneud cais amdanynt.

Er enghraifft, roedd meithrinfa wedi gwneud cais am y Grant Gweithwyr Newydd er mwyn cyflogi ymarferydd i gynnig gofal a chymorth un-i-un am 16 awr yr wythnos i blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol. Ysgrifennodd tad y plentyn lythyr i gefnogi cais y feithrinfa a oedd yn amlinellu'r effaith gadarnhaol y byddai'r grant yn cael ar ei deulu. Ar ddiwedd cyfnod y grant, caiff rhai astudiaethau achos eu cynhyrchu i arddangos defnydd ac effaith y grant.

Yn dilyn pryderon ynghylch yr amserlen dynn i wneud cais am y Grant Gofal Plant, mae Busnes Cymru wedi diwygio'r canllawiau i i ganiatáu i geisiadau gael eu derbyn erbyn 20 Mawrth 2020, a'u hawlio erbyn 11 Rhagfyr 2020. I wneud cais am y grantiau, cysylltwch â Llinell gymorth Busnes Cymru ar 03000 603000.

# 10 CAMAU – Cynllun Dysgu Cymraeg i'r Sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae

Mae prosiect 'Camau' yn cael ei ariannu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda'r nod o ddarparu cyrsiau Cymraeg 20 awr yn rhad ac am ddim i ymarferwyr yn y sector gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae. Mae'r cyrsiau ar gael ar wahanol lefelau ac ym mhob rhan o Gymru.

Ers ei lansio yn Eisteddfod yr Urdd eleni ym Mae Caerdydd mae'r prosiect wedi symud ymlaen yn dda. Erbyn hyn mae 8 o gyrsiau wedi eu cwblhau a 24 yn dod at eu terfyn. Erbyn iddynt ddod i ben bydd 275 o ymarferwyr wedi bod ar gyrsiau dysgu Cymraeg. Gyda rhagor o gyrsiau wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn newydd rydym ar ein ffordd i gyrraedd 350, sef y targed a osodwyd ar ein cyfer gan y Ganolfan. Mae'r adborth a gafwyd gan yr ymarferwyr sydd wedi cwblhau cyrsiau wedi bod yn gadarnhaol iawn a hoffai Camau ddiolch i'r tiwtoriaid sy'n cael eu cyflogi gan Goleg Cambria a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant am eu gwaith caled. Diolch hefyd i aelodau Cwlwm am eu cydweithrediad parod.



Hyd yn hyn mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau wedi cael eu cynnal gyda'r nos ac ar lefel Mynediad. Er mwyn annog mwy i fynychu yn ystod y dydd mae bloc o gyrsiau 4 x diwrnod, 5 awr y diwrnod ar lefel Mynediad – un yn y gogledd a'r llall yn y de – wedi cael eu trefnu yn y flwyddyn newydd gyda swm o £10 yr awr ar gael i dalu am staff cyflenwol. Mae hwn yn gyfle gwych felly i ddysgu cryn dipyn o Gymraeg elfennol mewn amser byr iawn. Cofiwch gysylltu â 'Camau' os am fwy o fanylion –

**https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/camau/**

Yn olaf, hoffwn atgoffa pawb fod cwrs ar-lein Gwybodaeth am y Gymraeg i'w gael ar wefan y Ganolfan, sy'n cynnwys gwybodaeth ddiddorol iawn ar fanteision dwyieithrwydd, addysg Gymraeg, sefyllfa'r Gymraeg heddiw a hanes yr iaith. Ewch ati i gofrestru am ddim er mwyn dysgu mwy am y Gymraeg a sut mae'r iaith yn mynd o nerth i nerth –

**https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/cyrsiau-cymraeg-gwaith/gwybodaeth-am-y-gymraeg**



# 11 Mae AGC bellach ar-lein ar gyfer gofal plant a chwarae!




Ym mis Ionawr 2020, aeth AGC ar-lein ar gyfer darparwyr gofal plant a chwarae, sy'n golygu bod yn rhaid i ddarparwyr cofrestredig gynnal eu holl fusnes â'r arolygiaeth ar-lein -

https://arolygiaethgofal.cymru/gwasanaethau-ar-lein?_

Yn ogystal â gallu gwneud cais i gyflwyno amrywiadau a hysbysiadau, mae darparwyr cofrestredig yn defnyddio'r system ar-lein i gwblhau a chyflwyno eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS), sy'n dod i ben ar 4 Chwefror 2020.

Caiff y system ei galw'n "AGC Ar-lein". Gallwch gael mynediad ati'n uniongyrchol neu drwy ardal borthol benodol ar wefan AGC.

Erbyn diwedd mis Chwefror 2020 bydd darparwyr newydd yn gallu creu cyfrif a chyflwyno cais i gofrestru drwy AGC Ar-lein.

## Manteision AGC Ar-lein

Bydd cael cyfrif ar-lein yn ei gwneud yn llawer haws i chi weithio gyda AGC, drwy ddarparu un ffordd syml ac effeithiol o gyflwyno gwybodaeth am ddigwyddiadau hysbysadwy neu unrhyw newidiadau i'ch gwasanaeth.

Mae AGC hefyd yn gobeithio y bydd y broses gofrestru bellach yn haws i'w deall; yn cyfateb yn agos i'r broses sydd eisoes mewn lle ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant; ac y bydd yn helpu i baratoi darparwyr yn well ar gyfer arolygiadau.


## Defnyddio AGC Ar-lein am y tro cyntaf os ydych eisoes wedi cofrestru

A ydych yn Ddarparwr sydd angen cael PIN i actifadu eich cyfrif AGC Ar-lein? Ffoniwch AGC ar 0300 7900 126 a dewiswch opsiwn 4. Eu horiau agor yw dydd Llun i ddydd Iau, rhwng 9am a 5pm, a rhwng 9am a 4.30pm ar ddydd Gwener. Maent ar gau ar benwythnosau.

Os ydych eisoes wedi actifadu eich cyfrif ac wedi cael eich PIN, gallwch ddechrau defnyddio AGC Ar-lein ar unwaith.



# 12 Y Cylch Chwarae




Mae Dr Pete King yn Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Abertawe lle mae'n arwain ar gyflwyno MA ar *'Developmental and Therapeutic Nature of Play.'* Mae Dr King hefyd yn awdur medrus sydd wedi darparu nifer o bapurau ymchwil gan gynnwys ymchwiliad diweddar i'r Cylch Chwarae. Gofynnom i Dr Pete King pam ei fod yn teimlo bod gwybodaeth am y Cylch Chwarae yn bwysig nid yn unig i Weithwyr Chwarae ond i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant.

Dywedodd wrthym: Ym 1998, cyflwynodd Gordon Sturrock a Perry Else theori Gwaith Chwarae newydd yng nghynhadledd y Gymdeithas Chwarae Ryngwladol (IPA) yn Colorado, UDA. Y theori oedd y Cylch Chwarae (Sturrock & Else, 1998) sy'n canolbwyntio ar y broses chwarae. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae'r Cylch Chwarae wedi dylanwadu ar ymarfer Gwaith Chwarae, addysg Gwaith Chwarae a hyfforddiant Gwaith Chwarae, gyda geiriau fel 'ciwiau chwarae' a 'gofod chwarae' (*'play frame'*) yn cael eu defnyddio'n aml gan ymarferwyr, hyfforddwyr a darlithwyr Gwaith Chwarae. Er ei fod

bellach wedi ymgolli yng Ngwaith Chwarae, mae cysyniad y Cylch Chwarae yn berthnasol iawn i bawb sy'n gweithio gyda phlant yn eu chwarae (King & Temple, 2019), gan gynnwys ymarferwyr gofal plant megis gwarchodwyr plant, staff gofal dydd, staff cyn-ysgol neu'r rhai sy'n gweithio mewn darpariaeth y tu allan i oriau ysgol.

Canfu astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd gan King a Newstead (2019) nad yw gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cylch Chwarae o fewn gofal plant yn adnabyddus o hyd. Nid oedd ymarferwyr gofal plant yn gallu darparu dealltwriaeth glir o dair elfen allweddol y Cylch Chwarae; metalude (meddylfryd cyn-chwarae), gofod chwarae  a difodiant (diwedd y chwarae). Daeth yr astudiaeth i'r casgliad, os yw'r Cylch Chwarae i'w ystyried mewn cyd-destun arall y tu allan i Waith Chwarae, fel gofal plant, yna mae angen mwy o hyfforddiant ar y Cylch Chwarae. Gallai hyn gefnogi gweithwyr gofal plant yn eu hymarfer, a gallai hefyd fod o fudd i'r plant sy'n cael eu rhoi o fewn eu gofal gan ymarferwyr sy'n ymwneud â'r broses chwarae trwy'r Cylch Chwarae.

Mae profiadau ein hunain yn y Sector Gwaith Chwarae yn cefnogi'r wybodaeth a gyflwynwyd gan Dr Pete King. Mae gwybodaeth am y Cylch Chwarae yn galluogi dealltwriaeth gliriach o sut mae plant yn cyfleu eu hanghenion yn ystod chwarae. Mae'n galluogi'r rhai sy'n gweithio gyda phlant i gefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant.

I brynu The Play Cycle - Theory, Research and Application, 1st Edition, By Pete King, Gordon Sturrock, ewch i

**https://www.routledge.com/The-Play-Cycle-Theory-Research-and-Application-1st-Edition/King-Sturrock/p/book/9781138323322**

www.cwlwm.org.uk

Mae partneriaeth Cwlwm yn cynnwys y sefydliadau isod:


**CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS' CLUBS**
Bridge House, Station Road, Llanishen, Caerdydd CF14 5UW
**Ffôn:** 029 2074 1000 **E-bost:** info@clybiauplantcymru.org

**BLYNYDDOEDD CYNNAR CYMRU**
Unit 1, The Lofts, 9 Hunter Street, Caerdydd CF10 5GX
**Ffôn:** 029 2045 1242 E-bost: info@earlyyears.wales

**MUDIAD MEITHRIN**
Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint-Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1PD
**Ffôn:** 01970 639639 **E-bost:** post@meithrin.cymru

**NDNA CYMRU**
NDNA Cymru, Office 3, Crown House, 11 Well Street, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1AE
**Ffôn:** 01824 707823 **E-bost:** wales@ndna.org.uk

**PACEY CYMRU**
Room G16, The Maltings, East Tyndall Street, Caerdydd CF24 5EZ
**Ffôn:** 02920 351407 **E-bost:** paceycymru@pacey.org.uk